Credwch mewn plant
Believe in children
Barnardo's Cymru

Ymateb i'r Ymgynghoriad gan Barnardo's Cymru

Gwaith craffu cyfnod un Bil Awtistiaeth (Cymru)

21 Medi 2018

[redacted]

[redacted]

www.barnardos.org.uk/what_we_do/who_we_are/wales/wales_policy

- **Gellir gwneud yr ymateb hwn yn gyhoeddus**
- **Mae'r ymateb hwn ar ran Barnardo's Cymru**

Cyflwyniad Barnardo's Cymru

Mae Barnardo's Cymru wedi bod yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru am dros 100 mlynedd ac mae'n un o'r elusennau plant mwyaf sy'n gweithio yn y wlad. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal tua 90 o wahanol wasanaethau drwy Gymru, gan weithio mewn partneriaeth ag 16 o'r 22 awdurdod lleol.

Mae pob un o'n gwasanaethau'n wahanol, ond mae pob un ohonynt yn credu bod pob plentyn a pherson ifanc yn haeddu'r dechrau gorau mewn bywyd, waeth pwy ydyn nhw, beth maen nhw wedi'i wneud neu beth maen nhw wedi bod drwyddo. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a geir o'n gwaith uniongyrchol gyda phlant i ymgyrchu am bolisi plant a gofal cymdeithasol gwell ac er mwyn amddiffyn hawliau pob plentyn. Rydym yn credu, gyda'r help cywir, cefnogaeth ymroddedig ac ychydig o ymddiriedaeth, gall hyd yn oed y plant mwyaf bregus gael trefn ar eu bywydau. Rydym yn anelu at sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer mwy o blant trwy gynnig y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i sicrhau teuluoedd cryfach, plentyndod mwy diogel a dyfodol cadarnhaol.

Barnardo's Cymru, Awtistiaeth a'r Bil

I bwrpas yr ymateb hwn pan ddefnyddir y term anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASA) rydym yn cynnwys cyflyrau niwroddatblygiadol eraill.

Mae Barnardo's Cymru'n cefnogi rhai plant ac oedolion ifanc awtistig; rydym hefyd yn cefnogi rhai rhieni a allai fod yn awtistig trwy ein gwasanaethau cymorth teuluoedd. Er y gellid dadlau nad yw Barnardo's Cymru'n darparu unrhyw gefnogaeth benodol ar gyfer awtistiaeth, mae'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ar gyfer plant a theuluoedd anabl gydag un neu fwy o blant anabl yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau lle mae ASA yn broblem. Gall Barnardo's Cymru hefyd gael cyswllt â theuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan ASA drwy wasanaethau gofalwr ifanc, camddefnyddio sylweddau, Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant, Iechyd a Lles Emosiynol, Cam-drin Plant yn Rhywiol, Ymddygiad Rhywiol Niweidiol, Gofal a Gadael Gofal.

Rydym yn ymwybodol o'r ymateb i'r ymgynghoriad a gyflwynwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru ac rydym yn cefnogi eu hymateb ac yn cydnabod eu harbenigedd penodol.

Cyfrannodd Barnardo's Cymru at yr ymgynghoriad ar y fersiwn drafft blaenorol, ac mae'n dal i gefnogi'r Bil ac yn credu y dylid gwella profiadau pobl a theuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan ASA trwy osod gwasanaethau o fewn fframwaith atebol statudol.

Trosolwg o’r ymateb

Nid yw Barnardo’s Cymru’n gefnogol i ddatblygu deddfwriaeth heb fod angen clir ac mae'n teimlo bod achos da wedi’i gyflwyno ar gyfer y ddeddfwriaeth hon. Fodd bynnag, ni fyddai pasio’r bil hwn yn sicrhau’r holl newid sydd ei angen ac felly byddem yn dadlau dros ystyried darpariaethau ychwanegol trwy ddiwygio’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru).

Mae Barnardo’s Cymru’n cydnabod y cynnydd a wnaed yn y degawd ers y Strategaeth Awtistiaeth gyntaf ac yn fwy diweddar, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Mae'n ymddangos i Barnardo’s Cymru ei fod yn bosibl y gellid bod wedi gwneud mwy o gynnydd pe byddai datblygiadau strategol a gwasanaeth wedi’i gwneud o fewn fframwaith statudol cliriach. Felly mae Barnardo’s Cymru’n awgrymu y byddai nod y Bil wedi bod yn well pe byddai disgwyliad clir o newid positif i bobl awtistig yn amlwg ynddo.

Tra bod Barnardo’s Cymru’n cydnabod y cynnydd a wnaed, bydd diffyg fframwaith atebolrwydd gyda disgwyliadau clir o ran canlyniadau lleol yn hybu gwahaniaeth rhwng ‘codau post’, nid o anghenraid yn natur y ddarpariaeth ond yn y canlyniadau a welir.

Mewn ymgynghoriad diweddar yn un awdurdod lleol roedd Barnardo’s Cymru wedi’u synnu pa mor aml yr oedd teuluoedd oedd wedi’u heffeithio gan ASA yn dweud eu bod yn osgoi cysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod ofn arnynt y byddai’r gwasanaeth yn ystyried nad oedden nhw’n ymdopi a’u bod yn gosod eu teuluoedd mewn risg. Er nad oes tystiolaeth i gefnogi’r gred hon neu ei bod mor amlwg mewn ardaloedd eraill, gallai fframwaith deddfwriaethol fynd beth o’r ffordd i roi sylw i’r mater hwn.

Diffiniad o awtistiaeth

Mae Barnardo’s Cymru’n croesawu cynnwys diffiniad o awtistiaeth yn y Bil. Hefyd rydym yn cydnabod y budd o ddefnyddio diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd.

Hawliau

Mae Barnardo’s Cymru’n falch o weld bod Adran 8 yn cynnwys sylw dyledus i CCUHP, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ac Egwyddorion yr UC ar gyfer Pobl Hŷn. Tra bod cynnwys hyn yn atgyfnerthu, yn hybu a diogelu Hawliau Dynol mae Barnardo’s Cymru’n dadlau y gellid cryfhau hyn ymhellach yn arddull a geiriad y Bil,

er enghraifft yn adran 2 gallai'r angen i gynnwys yr unigolyn ag ASA a'u teuluoedd a'u gofalwyr gan ystyried eu nodau a'u dyheadau fod yn gliriach na 2 (l).

Yn Adran 2 gellid hefyd ystyried eiriolaeth ar gyfer bob parti a chydnabod ymhellach rôl gweithwyr cyfarwydd i gefnogi ymgysylltiad.

Cyrff perthnasol

I gydnabod profiad gydol oes awtistiaeth ac felly natur newidiol anghenion gofal penodol, oni ddylai'r rhestr hon hefyd gynnwys, ar ryw ffurf, wasanaethau gofal cymdeithasol a phreswyl wedi'u rheoleiddio, fel gofal nyrsio a'r henoed a llety diogel?

Rydym yn ymwybodol fod cynrychiolaeth sylweddol yn ystâd ddiogel, boed ar gyfer materion lles neu gyfiawnder, pobl ag awtistiaeth boed wedi cael diagnosis ai peidio. Byddai'r sefyllfa hon yn elwa ar ymyrraeth a diagnosis cynnar priodol.

Amserlenni

Tra bydd Barnardo's Cymru bob amser yn dadlau dros leihau'r cyfnodau aros i gael asesiad a gwasanaeth, rydym yn cydnabod gwerth natur bragmatig gosod amserlenni y gellir eu cyflawni a byddem yn cytuno â'r awgrym o ddefnyddio canllawiau NICE.

Fodd bynnag, mae Barnardo's Cymru'n awgrymu wrth ddeddfu ar gyfer diagnosis y gallai'r Bil yn ddiarwybod hybu diagnosis fel trothwy ar gyfer gwasanaethau neu gefnogaeth arall. Rydym yn cydnabod bod y geiriad yma'n awgrymu na ddylai asesu neu ddarparu gofal a chefnogaeth gael ei ohirio yn sgil yr angen am ddiagnosis ond rydym yn teimlo y byddai'n well pe byddai hyn yn gliriach os yw'n bosibl.

Tîm amlddisgyblaethol

Mae Barnardo's Cymru'n awgrymu y gallai rôl eiriolwr annibynnol ar gyfer bob parti, ac, oherwydd natur yr Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig, rôl unrhyw weithiwr sydd eisoes yn cefnogi'r unigolyn ac yn hysbys iddynt gael ei ystyried yn 4 (6)(d).

Byddai ei gynnwys fel hyn yn fwy cydnaws â dull hawliau a chyd-baratoi.

Casglu data

Mae Barnardo's Cymru'n cytuno â'r gofyniad i gasglu data; fodd bynnag, tra ein bod yn cydnabod y datganiad hollgynhwysol yn (6)(j) byddem yn awgrymu y dylid ystyried rhestru setiau data pellach yn ogystal â

dyletswydd ar gyrff ar wahân i'r GIG fel awdurdodau lleol. Buasem yn dadlau y byddai data mwy defnyddiol yn cael ei gasglu pe buasem yn cynnwys data fel:

- Oed nawr
- Oed pan gafwyd yr arwyddion cynharaf
- Niferoedd sy'n disgwyl am asesiad diagnostig
- Amseroedd aros am asesiad diagnostig
- Cyfnod heb ddiagnosis
- Rôl y teulu, rhiant/gofalwr ayb
- Nifer teuluoedd lle mae'n hysbys bod ymddygiad sy'n amlygu ASA ond sydd heb eu hatgyfeirio, sy'n gwrthod neu ddim yn ceisio asesiad diagnostig.

O ystyried y ffocws ar leihau profiad niweidiol yn ystod plentyndod. Ac ymyrraeth gynnar gallai'r data hwn fod yn amhrisiadwy.

Mynediad cyfartal

Mae Erthygl 9 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn amlinellu cyfrifoldebau gwladol mewn perthynas â hygyrchedd ac mae'r amcanion cydraddoldeb yn cynnwys:

> *"5. Mynd i'r afael â rhwystrau a chefnogi pobl anabl er mwyn iddynt allu byw'n annibynnol a chael dewis a rheolaeth yn eu bywydau bob dydd."*

Mae Barnardo's Cymru'n ymwybodol o brofiadau rhai pobl awtistig sy'n cael anhawster i gael mynediad at wasanaethau cefnogi priodol oherwydd diffyg anabledd amlwg ac IQ normal i uchel. Dylem ddisgwyl y bydd hyn yn cael ei ddileu mewn perthynas â gwasanaethau statudol neu ofal cymdeithasol; fodd bynnag, gallai fod yn anos rhoi sylw i hyn wrth ddarparu gwasanaethau masnachol ehangach sy'n dangos bod angen **ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth** cynhwysfawr i herio deallusrwydd.

Mae Barnardo's Cymru'n cefnogi'r ddarpariaeth yn y Bil sy'n gofyn am ddarparu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a deallusrwydd. Mae hyn yn cael ei gynnwys hefyd fel ymrwymiad yn erthygl 8 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Casgliad

Heb os bu gwelliannau o ran darpariaeth a phrofiad o wasanaethau ar gyfer pobl awtistig, ac a dderbynnir ganddynt. Mae'n dal yn wir fod angen gwelliannau pellach i barhau i sicrhau cyfle a phrofiad cyfartal i bobl awtistig. Mae hefyd yn amlwg ein bod yn wynebu'r hinsawdd ariannol

fwyaf heriol wrth geisio gwella ansawdd a chael mwy o gefnogaeth yn erbyn angen cynyddol a nodwyd.

O fewn yr amgylchedd hwn mae Barnardo's Cymru'n croesawu datblygiad y bil hwn ac yn ei ystyried yn gyfle i ddatgan yn glir beth yw'r nod cenedlaethol yn ogystal â'r fframwaith darparu ac atebolrwydd ar gyfer gwasanaeth i bobl awtistig.

Mae Barnardo's Cymru'n croesawu'r cam o gynnwys dyletswyddau hawliau penodol ac mae'n gobeithio y bydd datblygiadau pellach o ran darparu eiriolaeth a gofynion i hwyluso ymgysylltiad unigol lle y bo'n bosibl.

Wrth gloi mae Barnardo's Cymru'n croesawu datblygiad y Bil Awtistiaeth ac yn ei ystyried fel cam blaengar angenrheidiol wrth ddarparu gwell gwasanaethau i bobl sy'n dioddef neu sydd wedi'i heffeithio gan Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.

[redacted]
Barnardo's Cymru
Medi 2018